



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol David Hughes
Ffordd Pentraeth
Porthaethwy
Ynys Mon
LL59 5SS**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol gyfun ddwyieithog gyda 1,110 o ddisgyblion rhwng 11-18 oed, ac mae 206 ohonynt yn fyfyrwyr 16-18 oed. Mae'n gwasanaethu dalgylch de-ddwyrain Môn, ardal amaethyddol yn bennaf gyda pheth diwydiant ysgafn sy'n nodweddiadol o'r ardal. Mae ganddi 10.4% o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â hawl i gael prydau am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (17.4%).

Mae gan 2.9% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA), sydd ychydig uwch na'r canran cenedlaethol o 2.6%. Mae tua 13% o ddisgyblion eraill ar y gofrestr ar gyfer gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Mae'r ffigwr hwn ychydig is na'r canran cenedlaethol. Nid oes un disgybl wedi cael ei ddatgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn ac mae 90% o'r disgyblion yn gallu siarad Cymraeg. Mae 33% yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r rhan fwyaf wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym Medi 1995.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol David Hughes yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,759 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion Ynys Môn yw £4,111 a'r lleiafswm yw £3,759. Mae Ysgol David Hughes yn y pumed safle o'r pump ysgol uwchradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae cyflawniad y disgyblion yn dda yn y mwyafrif o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4;
- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4, a hefyd yn y rhan fwyaf o'r gwersi;
- mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol dda;
- mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau eang ac addas; ac
- mae'r ysgol yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn rhoi arweiniad da iawn i'r ysgol ac maent yn cael eu cefnogi gan bob aelod o'r staff;
- mae hunanarfarniad, a chynllun datblygu'r ysgol, yn rhoi darlun clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu;
- mae rhaglen systematig o arsylwi gwersi er mwyn sicrhau bod ansawdd y dysgu a'r addysgu yn gyson dda ym mhob dosbarth; ac
- mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i osod targedau perthnasol a heriol i'r disgyblion er mwyn gwella safonau.

Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol David Hughes:

- A1 godi safonau bechgyn, yn enwedig yn y pynciau iaith yng nghyfnod allweddol 4;
- A2 parhau i godi safonau'r deillannau mewn Saesneg er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn gwella;
- A3 rhannu arferion rhagorol yr addysgu sy'n hyrwyddo llythrennedd ar draws y cwricwlwm;
- A4 gweithredu strategaethau effeithiol i hyrwyddo perfformiad y disgyblion mwy abl a thalentog; a
- A5 gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella cyflwr y caeau chwaraeon a sicrhau yr eir i'r afael â diffygion y drysau tân er mwyn gwarantu iechyd a diogelwch.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae safonau yn yr ysgol wedi gwella. Yn y mwyafrif o'r dangosyddion, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae'r perfformiad yn well na ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant yn y pynciau craidd dros y tair blynedd diwethaf, ond mae perfformiad yr ysgol yn dal yn is na chyfartaledd y teulu ac ysgolion tebyg. Mae safonau Cymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos bod perfformiad yr ysgol yn uwch nag ysgolion tebyg ond mae canlyniadau Saesneg yn is. Mae perfformiad yn y lefelau uchaf yn is na'r teulu mewn Saesneg a Chymraeg ond yn well na'r teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar y cyfan, mae perfformiad yr ysgol yn dda yng nghyfnod allweddol 4. Mae trothwy lefel 1 yn well na chyfartaledd y teulu ac ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Hefyd, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Serch hynny mae'r perfformiad yn amrywio ar draws yr holl ddangosyddion. Ni wnaeth unrhyw ddisgybl adael yr ysgol heb gymhwyster yn 2010 na 2011.

Mae disgyblion y chweched dosbarth i gyd yn dilyn cyrsiau lefel 3. Mae'r disgyblion yn perfformio'n dda iawn gyda 99% yn cyrraedd y trothwy yn 2011, a 92% yn cwblhau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru lefel 3.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na'r bwlch cenedlaethol ond yn fwy na chyfartaledd y teulu. Mae'r bwlch wedi lleihau yng nghyfnod allweddol 3 ond ar hyn o bryd, nid yw'r bwlch wedi lleihau cymaint yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r bwlch rhwng perfformiad y disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a gweddill y garfan yn fwy na chyfartaledd y teulu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd arwyddocaol.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o'r gwersi ac yn adeiladu ar eu gwybodaeth, eu medrau, a'u dealltwriaeth yn dda. Mae llawer yn cynnig atebion estynedig yn y Gymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. Maent yn gweithio'n effeithiol yn unigol a hefyd mewn grŵpiau bach ac yn ymateb yn bwrpasol i dasgau priodol. Wrth symud trwy'r cyfnodau allweddol mae'r disgyblion yn dangos cynnydd da yn eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg ac yn datblygu medrau ysgrifennu a darllen perthnasol. Mewn llawer o wersi mae'r disgyblion yn gwneud defnydd o fedrau i ddadansoddi testunau a llunio casgliadau. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu ysgrifennu yn estynedig o fewn gwersi Cymraeg a Saesneg a hefyd mewn amryw o'r pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu i ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig

mewn llawer o'r pynciau, ac yn gallu defnyddio'r termau pynciol perthnasol. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu cywirdeb sillafu ac atalnodi, ond mae camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ychydig o ddisgyblion. Mae oed darllen llawer o'r disgyblion yn is na'u hoed cronolegol ar ddechrau blwyddyn 7, ond, erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd fel eu bod yn gallu darllen i ddisgwyliadau eu gallu.

Mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion yn datblygu yn dda iawn ac maent yn gallu defnyddio'r medrau yn effeithiol mewn amryw o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae cynnydd arwyddocaol dros y pedair blynedd yn nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, ac mae'r perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd y lefelau uwch. Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion yn uchel iawn ac mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyrraedd lefel 1 neu 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol dda. Teimla llawer o'r disgyblion fod yr ysgol yn delio'n briodol â'r ychydig o achosion o fwlio sydd yn codi. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corfforol a gwella eu diet. Mae lefelau da o gyfranogi mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon gyda llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y clwb 5x60.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'r ysgol nawr ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Dim ond dau ddisgybl sydd wedi cael gwaharddiad parhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae lefelau gwaharddiadau dros dro yn isel iawn.

Gwna llawer o ddisgyblion gyfraniad cadarn i amryw o agweddau o fywyd ysgol trwy weithgareddau'r cyngor yr ysgol, cynghorau blwyddyn, grŵp eco a'r grŵp bwyd a ffitrwydd. Yn gynyddol, mae disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda gydag ymagweddau cadarnhaol tuag at waith. Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau eang ac addas, ac yn bodloni'r gofynion statudol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladau'n

effeithiol ar waith y cyfnod blaenorol. Yn ogystal â'r pynciau statudol, mae pob disgybl yn astudio ail iaith dramor ym mlwyddyn 9. Trwy gydweithio gyda Choleg Menai ac ysgolion cyfun eraill Ynys Môn, mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Cynigir hefyd ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau llawer o'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu medrau. Yng nghyfnod allweddol 3 mae pob disgybl yn cael gwersi medrau fel rhan o'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac mae disgyblion Blwyddyn 9 yn derbyn dwy wers medrau ychwanegol bob wythnos. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, cynigir darpariaeth dda trwy rhaglen Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn ogystal â'r trefniadau penodol hyn, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau datblygiad effeithiol o fedrau trwy wersi ar draws y cwricwlwm. Mae nifer helaeth o ddisgyblion o Flwyddyn 9 ymlaen yn ennill cymwysterau yn y medrau hanfodol ar lefel 2. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth dda iawn ar gyfer gwella medrau llythrennedd y disgyblion hynny sydd ag oed darllen isel wrth ymuno â'r ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg yn dda iawn. Er mai lleiafrif o'r disgyblion yn unig sydd yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith, mae llawer yn dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r Gymraeg mewn gwersi ac mewn gweithgareddau eraill. Datblygir dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig yn effeithiol trwy wersi ar draws yr ysgol a thrwy weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae polisi gweithredol yn ei le, ac mae amryw o engreiffiau o syt mae'r ysgol yn hyrwyddo ailgyrchu ac am gysylltu ag ysgolion ledled y byd.

Addysgu: Da

Mae llawer o'r gwersi wedi eu cynllunio'n drwyadl ac yn cynnwys gweithgareddau addas er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a hybu safonau da. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwrpas y gwaith ac yn gwybod beth i'w wneud er mwyn llwyddo. Mae athrawon hefyd yn cynnwys llawer o'r disgyblion mewn adolygiad o'u dysgu blaenorol. Gwelir perthynas waith dda a rheolaeth ddosbarth effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu ac adnoddau er mwyn sicrhau cynnydd da trwy'r wers. Maent yn rhoi cymorth ac arweiniad da i'r disgyblion pan fyddant yn gweithio'n unigol neu mewn grwpiau.

Yn y gwersi rhagorol mae athrawon yn hyrwyddo dysgu o ansawdd uchel iawn trwy drosglwyddo llawer o gyfrifoldeb i'r disgyblion. Mae eu cwestiynu yn gywain iawn a rhoddant gyfleoedd helaeth i'r disgyblion wrando, ymateb, cwestiynu, trafod a rhannu gwybodaeth. Mae'r gwersi hyn yn llwyddo i ddatblygu medrau a dealltwriaeth bynciol law yn llaw â medrau eraill megis llythrennedd a medrau meddwl yn effeithiol iawn. Mae disgwyliadau'r athrawon a lefel her y tasgau yn uchel iawn ac mae'r gweithgareddau'n gyffrous ac yn ysgogol gyda chyflymdra da iawn i'r dysgu.

Mae ychydig o wersi yn llai llwyddiannus, oherwydd gweithgareddau sydd yn methu â diddori neu gynnig digon o her i'r disgyblion, diffyg amrywiaeth yn y dulliau addysgu, rhediad dysgu araf neu amseru amhriodol y tasgau.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn y dosbarth ac yn rhoi adborth da sydd yn helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mewn llawer o wersi mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a gwelir strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith ar y safonau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd ac yn rhoi adborth adeiladol.

Mae pob athro yn cofnodi canlyniadau asesiadau bob tymor ar system electronig yr ysgol. Mae'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion tuag at eu graddau targed yn effeithiol ac yn gweithredu ystod o strategaethau priodol er mwyn delio ag unrhyw danberfformiad. Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i rieni'n cydymffurfio â gofynion statudol ond nid oes lle ar yr adroddiadau ar gyfer sylwadau disgyblion a rhieni. Mae cynnwys adroddiadau'n gyffredinol dda, ond mae peth anghysondeb o ran defnydd athrawon o dargedau ac yn ansawdd eu sylwadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd ei disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae trefniadau a gweithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol wedi eu cynllunio'n dda, gan gynnwys addysg yrfaol, sydd yn cyfrannu'n effeithiol at eu lles. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw ac mae wedi sicrhau cam 5 y fenter ysgolion iach.

Mae gan yr ysgol system fugeiliol gadarn ac effeithiol a defnyddir amrywiaeth o asiantaethau er mwyn sicrhau cymorth perthnasol i ddisgyblion sydd angen cynhaliath benodol. Mae profiadau dysgu'r disgyblion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd da iawn pan maent yn dewis cyrsiau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn effeithiol wrth ddynodi a monitro cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae prosesau priodol yn eu lle ar gyfer adolygu eu cynnydd. Gyda chymorth effeithiol yr uwch gymorthyddion dysgu, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymdopi'n dda gyda'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau ar gyfer ymestyn y disgyblion mwy abl a thalentog mor effeithiol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i wella cyflwr y safle. Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol mewn cyflwr da, o ystyried oedran yr adeilad, ac mae digon o le ar gyfer nifer y disgyblion. Mae addasiadau wedi eu gwneud i nifer o'r ystafelloedd dysgu er mwyn creu ystafelloedd arbenigol sy'n caniatáu defnydd mwy hyblyg o'r ystafelloedd, ac yn sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r adeilad.

Mae'r cyfleusterau mewnol ar gyfer chwaraeon yn rhagorol, ac mae'r adnoddau technoleg gwybodaeth yn dda a niferus.

Mae asesiad risg tân wedi ei wneud yn ddiweddar sy'n nodi argymhellion gan gynnwys yr angen i gael mwy o ddrysau tân a chamau gweithredu. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi eu cyflawni yn barod.

Mae gwaith wedi ei wneud i wahanu cerddwyr a cherbydau yn iard yr ysgol pan mae disgyblion yn dod a gadael yr ysgol. Mae'r ysgol yn cadw sylw agos ar hyn ac yn ystyried os oes camau pellach y gellid eu cymryd i leihau risg ymhellach.

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymagweddau cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn delio yn effeithiol ag unrhyw achos o hiliaeth ac yn ei gofnodi yn ganolog. Prin iawn yw nifer yr achosion. Yn yr un modd maent yn delio yn dda gydag achosion o fwlio ac mae'r disgyblion yn ymddangos yn fodlon â'r gweithdrefnau sy'n bodoli. Mae gweithdrefnau addas a chadarn ar waith i ddelio gyda materion cyfle cyfartal a chydraddoldeb.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan bennaeth ac uwch dîm rheoli profiadol iawn. Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad da iawn i'r ysgol trwy sefydlu a chynnal strwythur a systemau rheolaethol cadarn. Mae ganddo weledigaeth glir am gyfeiriad yr ysgol ac mae'n rhoi blaenoriaeth amlwg i gyfoethogi profiadau a safonau'r disgyblion a hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'n derbyn cefnogaeth effeithiol iawn gan holl aelodau'r uwch dîm rheoli sydd yn gweithredu eu dyletswyddau mewn ffordd ddiymhongar ac effeithiol. Maent i gyd yn cyfleu disgwyliadau uchel. Mae tîm o reolwyr canol yn cynnig arweiniad o ansawdd da ac yn gosod disgwyliadau uchel i waith y staff.

Defnyddir amrywiaeth o ddata i osod targedau heriol ac i fonitro perfformiad yr ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio yn briodol, ac mae rheoli perfformiad yn nodwedd amlwg dda o drefniadaeth yr ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod bywyd a gwaith yr ysgol ac i bennu blaenoriaethau, a phwyntiau i'w gweithredu a'u datblygu. Mae staff adrannau a thîmau bugeiliol yn cyfarfod yn rheolaidd yn unol ag amserlen cyfarfodydd yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio'n dda i gynllunio a gwerthuso eu gwaith, ond ar brydiau nid oes digon o ddefnydd o bwyntiau gweithredu er mwyn hybu atebolrwydd.

Mae'r corff llywodraethol llawn yn ymwybodol iawn o berfformiad yr ysgol drwy dderbyn a dadansoddi data, cymharu ag ysgolion tebyg, a derbyn adroddiadau o ansawdd da gan y pennaeth ac athrawon eraill. Mae'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r agweddau sydd angen eu blaenoriaethu. Maent yn gweithredu'n effeithiol yn eu rôl o gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol sustem drwyadl o hunanarfarnu. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi asesiad cynhwysfawr a chywir o waith yr ysgol. Mae'r mwyafrif o adrannau yn dangos ymrwymiad i weithredu trefniadau'r sustem. Mae'r uwch reolwyr a rheolwyr canol yn chwarae rôl hanfodol wrth arwain arfarniad y ddarpariaeth a'r deilliannau. Defnyddiant ystod o strategaethau i adeiladu darlun clir o ansawdd eu gwaith. Maent yn gwerthfawrogi sylwadau yr awdurdod lleol ac yn ceisio barn disgyblion a rhieni. Yn gyffredinol, mae eu harfarniadau'n sylwgar a chywir.

Mae bron pob adran yn dadansoddi data ar gyrhaeddiadau disgyblion yn drwyadl. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o arsylwadau a monitro gwaith disgyblion yn effeithiol i ennill dealltwriaeth o ansawdd y profiadau yn y dosbarth. Fodd bynnag, nid ydynt yn arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth eu hadrannau mor drwyadl.

Mae cynllun datblygu bron bob adran yn dynodi strategaethau gwelliant addas. Mae'r rheolwyr yn hyddysg mewn datblygiadau addysgol. Mae eu cynlluniau datblygu yn paratoi eu hadrannau i ddelio â heriau newydd. Ar adegau, mae rheolwyr yn colli cyfleoedd i osod targedau mesuradwy y gellir barnu llwyddiant yn eu herbyn.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn rhestru 15 blaenoriaeth datblygu. Mae'r rhain yn rhannu i grwpiau sy'n ffocysu yn addas ar godi lefel cyrhaeddiad pob disgybl, lleihau'r bwlch rhwng grwpiau gwahanol o ddisgyblion, a gwella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth disgyblion. Mae sawl strategaeth wedi arwain at welliannau yn barod.

Mae record gref gan reolwyr o weithredu newidiadau a chyflawni gwelliannau.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog. Mae pob aelod o staff yn aelod o leiaf un pwyllgor sy'n cynghori ar agweddau gwaith yr ysgol. Mae pum cymuned ddysgu broffesiynol yn ymchwilio i agweddau sy'n hanfodol i wireddu blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Mae llawer o'r athrawon hefyd yn aelodau o gymunedau dysgu sy'n cynnwys ysgolion a grwpiau eraill. Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol hyn wedi cael dylanwad positif ar ddarpariaeth a safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda nifer o ddarparwyr eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar brofiadau'r disgyblion a'u lles. Mae'r pennaeth a'r uwch rheolwyr yn cyflawni rhan flaenllaw wrth gydweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu'r cwricwlwm ac i wella ansawdd yr addysgu trwy ledaenu ymarfer dda.

Gwelir effaith y partneriaethau hyn yn fwyaf amlwg wrth gynllunio cwricwlwm estynedig yn ôl gofynion llwybrau dysgu 14-19. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill a Choleg Menai drwy grŵp cwricwlwm Môn i drefnu cyrsiau cost effeithiol ôl 16. Mae trefniadau priodol i gysoni darpariaeth a sicrhau ansawdd rhwng ysgolion yn y bartneriaeth hon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd lleol i hyrwyddo trosglwyddiad disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac i rannu methodoleg dysgu, dulliau asesu a safonau. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth dda am anghenion pob disgybl o ran lles, anghenion ieithyddol a lefel cyrhaeddiad, yn cael ei rhannu.

Mae partneriaeth dda rhwng rhieni a'r ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth buddiol am yr ysgol. Defnyddir holiaduron yn effeithiol i gysylltu gyda hwy ac i gael eu barn am weithgareddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon sydd gan y rhieni. Mae'r rhieni yn cefnogi'r ysgol yn dda trwy drefnu gweithgareddau cymunedol i godi arian i'r ysgol ac elusennau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau eraill a chyflogwyr lleol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon cymwysedig.

Mae gostyngiad yn niferoedd plant o oed ysgol yn yr ardal yn effeithio ar y niferoedd yn yr ysgol ac wedi arwain at ostyngiad yng nghyllid yr ysgol dros sawl blwyddyn. Mae rheolwyr wedi creu cynllun manwl hir-dymor ar sut bydd yr ysgol yn gweithredu gostyngiad bach yn nifer yr athrawon wrth gynnal dewisiadau cwriciwlaidd i'r disgyblion. Mae diffyg yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn rhan o'r cynllun.

Amcangyfrifa'r rheolwyr gost pob strategaeth welliant a sicrhant fod adnoddau digonol ar gael i'r blaenoriaethau datblygu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn herio, ysgogi a chefnogi'r athrawon yn effeithiol. Mae'r athrawon yn mynychu ystod addas o gyrsiau.

Mae athrawon yn defnyddio adnoddau yn effeithiol ac maent yn defnyddio TGCh yn y dosbarth ac ar gyfer gweinyddiaeth.

O ystyried ansawdd yr addysgu a safonau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3 dros, y pedair blynedd diwethaf, mae'r dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwylidig yn y Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn dangos ychydig o gynnydd. Mae perfformiad wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ers 2010 ac yn 2011 mae ymysg 50% isaf o gymharu ac ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, yng nghyfnod allweddol 3, wedi gwella yn arwyddocaol dros bedair blynedd ac yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ers 2009. Hefyd, mae'r perfformiad yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Saesneg, er bod y canlyniadau yn gwella, mae'r ysgol yn perfformio yn weddol is na'r teulu ac ymysg 50% isaf o gymharu ac ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn weddol debyg i gyfartaledd y teulu ac ymysg 50% uchaf. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch wedi cynyddu mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg ond wedi gostwng mewn gwyddoniaeth. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn is na'r disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2008, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau A*-C TGAU) a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru. O gymharu â chyfartaledd y teulu, nid yw lefel 2 wedi bod cystal â'r teulu, ond mae lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn debyg i gyfartaledd y teulu. Mae'r ysgol ymysg y 50% uchaf am lefel 2 ac yn y 50% isaf am lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Ers 2009, mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn sylweddol uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn 2011 yn gwneud perfformiad yr ysgol yn is na'r teulu. Yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r trothwy lefel 1 (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau D-G) yn dangos gwelliant ac mae'r data ar gyfer 2011 yn dangos bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi ymestyn ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog yn cynyddu'n dda ac yn uwch na'r teulu a Chymru ac yn rhoi'r ysgol ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 4 yn llawer is na'r teulu a Chymru, ac yn rhoi'r ysgol ymysg y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau yn y pwnc Saesneg wedi gostwng yn arwyddocaol ers 2010 ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o gymharu ac ysgolion tebyg. Hefyd bu gostyngiad mewn gwyddoniaeth yn 2011 ac rhoi'r ysgol yn y 50% isaf. Mae canlyniadau mathemateg wedi cynyddu dros bedair blynedd ac yn rhoi'r ysgol ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 (sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch ar raddau A*-E) a'r sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach (sy'n cwmpasu'r holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol ar gyfer disgyblion 18 oed)

yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd yr awdurdod lleol. Llwyddodd 92% o'r disgyblion i gwblhau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus ar lefel 3 yn 2011.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Ymatebodd 302 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio ac mae'r rhan fwyaf yn dweud bod ganddynt rywun i siarad ag ef os ydynt yn peoni. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda. Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach ac mae bron pob disgybl yn nodi bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Hefyd, mae bron pob disgybl yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod athrawon yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol a bod y staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau maent yn eu hawgrymu. Mae'r gyfran hon yn uwch na'r gyfran sy'n dweud hyn mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Hefyd, mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith.

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 105 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae llawer yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg a bron pob un o'r rhieni yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, coleg neu waith. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Ray Owen	Arolygydd Cofnodol
Gareth Wyn Jones	Arolygydd Tîm
Kevin Adams	Arolygydd Tîm
Garth Higginbotham	Arolygydd Tîm
Alan Wyn Parry	Arolygydd Lleyg
Michael Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Nicola Hughes (dirprwy)	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---